**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Rheolaethau Mewnforio) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Rheolaethau Mewnforio) (Cymru) 2025.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**6 Awst 2025**

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae'r offeryn hwn yn gwahardd mewnforio cynhyrchion penodol o anifeiliaid cnoi cil a moch y bwriedir iddynt gael eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol i Gymru o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las a'r Swistir ("ardal marchnad sengl yr UE") at ddibenion atal cyflwyno clefydau i Brydain Fawr. Mae esemptiadau ar gyfer symiau bach o laeth powdr babanod, fformiwla babanod arall, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, bwyd anifeiliaid anwes sy'n ofynnol am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd a chynhyrchion bwyd penodol. Nid oes unrhyw esemptiadau ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd risg isel penodol.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim

**3. Cefndir deddfwriaethol**

3.1. Mae adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn caniatáu i Weinidogion ddefnyddio Gorchmynion i wneud darpariaeth o'r fath y maent yn barnu eu bod yn addas at ddibenion atal cyflwyno clefydau neu ledaenu clefydau i Brydain Fawr neu o fewn Prydain Fawr drwy fewnforio anifeiliaid a phethau eraill, boed yn fyw neu'n anfyw, yr ymddengys iddynt a allai gario neu drosglwyddo unrhyw glefyd.

3.2. Rhoddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 yn wreiddiol i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno). Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.3. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn “gosod yn unig”; ac mae'n ofynnol iddo gael ei osod, ar ôl iddo gael ei wneud, gerbron Senedd Cymru yn rhinwedd adran 10(6) o Ddeddf 1981, fel y'i darllenir gyda pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.4. Bydd angen diddymu'r datganiadau diogelu presennol ar gyfer PPR/ASF/FMD ar ôl i'r OS arfaethedig ddod i rym. Bydd hyn yn cael ei wneud yn weinyddol trwy ddatganiadau dirymu, yn hytrach na thrwy'r Gorchymyn ei hun.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Gwneir yr offeryn gan ddefnyddio pwerau o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i ddisodli'r gwaharddiad presennol ar fewnforion personol o gig anifeiliaid cnoi cil a chig moch a chynhyrchion llaeth o'r UE i Brydain Fawr. Gosododd Llywodraeth Cymru a Llywodraethau eraill Prydain Fawr y gwaharddiad gan ddefnyddio pwerau diogelu o dan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (TARP) yn dilyn brigiadau achosion o draed a'r genau (FMD) yn yr UE.

4.2. Roedd angen disodli'r mesur TARP gyda chyfundrefn fwy gwydn sy'n galluogi cadw gwaharddiad nes y penderfynir nad oes ei angen ar sail risg mwyach.

4.3. Mae'r offeryn hwn yn cydgrynhoi'r cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd achosion o FMD, Peste des Petits Ruminant (PPR) a chlwy Affricanaidd y moch (ASF) yn yr UE.

4.4. Mae'r offeryn hwn hefyd yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer cyfyngiadau ar fewnforion personol o gynhyrchion o Wladwriaethau AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las a'r Swistir sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd trwy fesurau diogelu

## 5. Ymgynghori

5.1. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r offeryn hwn. Mae'r llywodraethau datganoledig wedi bod mewn trafodaethau ar y cyd ac yn cytuno bod y mesurau hyn yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd anifeiliaid ym Mhrydain Fawr. Bydd offerynnau ar wahân yn cael eu cyflwyno yn Lloegr a'r Alban.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd nad yw'n cael unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, y sector gwirfoddol, na’r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer

Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.